Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Gweithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19): 14 Ebrill 2022

Data ar coronafeirws ac ar weithgarwch a chapasiti'r GIG hyd at 12 Ebrill 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Gweithgaredd a chapasiti ysbyty

Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt


# Cyflwyniad

Mewn ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19), mae gwybodaeth ddyddiol am ofal iechyd wedi cael ei chasglu'n benodol er mwyn sicrhau tryloywder a meithrin dealltwriaeth o weithgarwch a chapasiti'r GIG. Mae'r datganiad yn cynnwys ffigurau ar welyau cymorth anadlu mewnwthiol yn ôl defnydd, a derbyniadau cleifion cysylltiedig â COVID-19 i'r ysbyty.

# Prif bwyntiau

- Dros y 7 niwrnod diwethaf, cafodd cyfartaledd o 40 o bobl y dydd eu derbyn i'r ysbyty gyda chadarnhad neu amheuaeth o COVID-19. Mae hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r cyfartaledd o 39 ar gyfer yr wythnos hyd at 5 Ebrill 2022 ac mae'r lefelau yn debyg i'r hyn yr oeddent ganol mis Ionawr 2021.
- Ar 12 Ebrill 2022, roedd 1,511 o welyau yn cael eu defnyddio gan gleifion


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cysylltiedig â COVID-19 (achosion wedi'u cadarnhau, achosion a amheuir, a chleifion sy'n gwella), sef 17.4% o'r holl gleifion ysbyty. Mae hyn yn gynnydd o'r ffigur o 1,373 ar 5 Ebrill 2022 (15.7% o'r holl gleifion ysbyty) ac mae'r lefelau yn debyg i'r hyn yr oeddent dechrau mis Mawrth 2021.

- Mae nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 (achosion wedi'u cadarnhau, achosion a amheuir, a chleifion sy'n gwella) yn amrywio. Bu cynnydd o 138 yn nifer y cleifion cysylltiedig â COVID-19 dros yr wythnos ddiwethaf. Roedd hyn oherwydd cynnydd yn nifer y cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 (71 yn fwy o welyau yn cael eu defnyddio), cleifion sy'n gwella (57 yn fwy o welyau yn cael eu defnyddio) a chleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 (10 yn fwy o welyau yn cael eu defnyddio).
- Ar 12 Ebrill 2022, roedd 671 o welyau mewn ysbytai acíwt yn cael eu defnyddio gan gleifion â COVID-19 wedi'i gadarnhau ac roedd 105 (15.6%) o'r cleifion hyn yn cael triniaeth weithredol ar gyfer COVID-19.
- Ar 12 Ebrill 2022, roedd 22 o welyau cymorth anadlu mewnwthiol yn cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 (achosion wedi'u cadarnhau ac achosion a amheuir). Mae hyn yn cymharu â 17 o welyau cymorth anadlu mewnwthiol ar 5 Ebrill 2022 ac mae ar lefelau tebyg i'r hyn yr oeddent ganol mis Gorffennaf 2021.
- Yn ystod yr wythnos ddiweddaraf, mae nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio gan gleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cynyddu i'r lefel uchaf a welwyd ers dechrau mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, er bod nifer y gwelyau cymorth anadlu mewnwthiol sy'n cael eu defnyddio gan gleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cynyddu, mae'r lefelau'n dal yn is nag yr oeddent ddechrau mis Mawrth 2021.
- Rydym yn ymwybodol o fater sy'n effeithio ar y data a dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer y cyfnod rhwng 16 Chwefror a 31 Mawrth. Credir bod y data'n tangyfrif gwir nifer y gwelyau mewn ysbytai a ddefnyddir gan gleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19. Byddai hyn yn golygu y bydd y cyfansymiau a gyflwynir yma ar gyfer Cymru yn is na'r gwir ffigurau dros y cyfnod hwnnw. Mae cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gweithio i ddatrys y mater ac ailgyflwyno data diwygiedig am y cyfnod llawn yr effeithir arno. Disgwylir y bydd data diwygiedig ar gael i'w cyhoeddi yn nhablau cyfatebol **StatsCymru ar weithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19)** yn ystod wythnos 18

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ebrill.

Yn unol ag egwyddorion y **cynllun pontio o bandemig i endemig**, byddwn yn cyhoeddi rhai o'n hadroddiadau ystadegol COVID-19 rheolaidd yn llai aml. O ganlyniad, 14 Ebrill 2022 fydd y diweddariad wythnosol olaf yn y gyfres hon. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ar 12 Mai 2022 a chaiff ei gyhoeddi'n fisol o hynny ymlaen. Bydd yr holl ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn yn parhau i gael eu cyhoeddi'n ddyddiol ac maent ar gael ar **StatsCymru**. Bydd setiau data **am absenoldeb staff y GIG (StatsCymru)** yn parhau i gael eu diweddaru'n wythnosol.

Dydyn ni ddim pellach yn cynhyrchu taenlenni i fynd gyda'r datganiad hwn. Cyhoeddir gwybodaeth am welyau, nifer y cleifion yn yr ysbyty a derbyniadau i'r ysbyty ar ddyddiau'r wythnos ar **StatsCymru** am 12pm ac mae hyn yn cynnwys data hyd at y diwrnod cynt. Ar ôl 12pm ar ddydd Iau, ni fydd y data a ddangosir yn y datganiad yma yn cynnwys y data cyhoeddedig diweddaraf. Fodd bynnag, mae'r datganiad wythnosol yma yn rhoi sylwebaeth ychwanegol ar dueddiadau yn y data.

Mae ystadegau am absenoldeb staff y GIG ar gael ar **StatsCymru**.

Daw'r data o wybodaeth reoli ac mae'n bosibl y byddant yn newid. Ni fuont yn destun i'r un prosesau dilysu a gynhaliwyd ar gyfer datganiadau ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, fe'u darperir i gefnogi tryloywder a dealltwriaeth o weithgaredd y GIG ar yr adeg hon. Dylai'r ystadegau swyddogol barhau i gael eu hystyried yn ffynhonnell ddata awdurdodol. Gweler **blog y Prif Ystadegydd** am ragor o wybodaeth am y ffordd o adrodd gwybodaeth reoli, ansawdd data a thryloywder.

# Gweithgaredd a chapasiti ysbyty


Mae'r adran hon yn sôn am nifer y cleifion cysylltiedig â COVID-19 a gafodd eu derbyn i'r ysbyty, a'r gwelyau cymorth anadlu mewnwthiol sy'n cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 er mwyn sicrhau tryloywder a meithrin dealltwriaeth o weithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig COVID-19.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r mathau o ysbytai y mae’r adroddiad yn eu trafod wedi newid dros amser, am fwy o wybodaeth, gweler adran **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**.

## Derbyniadau i ysbytai

### Siart 1: Cleifion a dderbyniwyd i’r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd bod COVID-19 arnynt, o 1 Ebrill 2020




Ffynhonnell: Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)

**Derbyniadau i ysbytai'r GIG yn ôl bwrdd iechyd lleol, math o ysbyty a dyddiad (StatsCymru)**

## Nodiadau

Mae derbyniadau'n cyfeirio at y nifer o gleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty o fewn cyfnod o 24 awr rhwng hanner nos a hanner nos bob dydd, er enghraifft o 00:00 i 23:59 ddydd Llun gydag adroddiad ddydd Mawrth. Mae derbyniadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cynnwys cleifion sydd â COVID-19 neu gleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gweler adran **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg** ar gyfer y set gyflawn o nodiadau a newidiadau hanesyddol yn ymwneud â ffigurau derbyniadau.

## Prif bwyntiau

- Mae nifer y derbyniadau dyddiol newydd lle bo amheuaeth neu gadarnhad o COVID-19 yn amrywio. O ystyried hynny, gostyngodd y cyfartaledd treigl 7 diwrnod ar y cyfan rhwng Ionawr 2021 a Mehefin 2021, cyn cynyddu eto tan ganol Medi 2021. Ar ôl cyfnod o amrywio, gostyngodd y cyfartaledd yn gyffredinol rhwng fis Tachwedd 2021 a diwedd mis Rhagfyr 2021.
- Yn dilyn cynnydd gyflym yn gynnar ym mis Ionawr 2022 mae'r cyfartaledd wedi gostwng yn gyffredinol. Er bod cynnydd ym mis Mawrth 2022, mae nifer cleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19 sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty wedi sefydlogi dros yr wythnos ddiweddaraf.
- Yn y 7 niwrnod diwethaf cafodd cyfartaledd o 40 o bobl y dydd eu derbyn i'r ysbyty gydag achos wedi'i gadarnhau neu achos a amheuir o COVID-19. Mae hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r cyfartaledd o 39 ar gyfer yr wythnos hyd at 5 Ebrill 2022 ac mae'r lefelau yn debyg i'r hyn yr oeddent ganol mis Ionawr 2021.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Nifer y bobl yn yr ysbyty

### Siart 2: Nifer y bobl yn yr ysbyty fel rhai a posibl, a sydd wedi'u cadarnhau neu sy'n gwella gyda COVID-19, o 1 Ebrill 2020




Ffynhonnell: Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
(a) O 23 Ebrill 2020, data o ysbytai cymunedol wedi'i gynnwys.
(b) O 26 Mai 2020, cyflwynwyd categori newydd ar gyfer adfer cleifion COVID-19.
(c) O 7 Mehefin 2020 ymlaen, dechreuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan adrodd am gleifion a oedd yn gwella, ond cofnodwyd y rhain yn y categori COVID-19 wedi'i gadarnhau cyn hynny.

### Cyfnodau yn ysbytai'r GIG yn ôl bwrdd iechyd lleol, math o ysbyty a dyddiad (StatsCymru)

## Nodiadau

Cyflwynwyd y categori cleifion sy'n gwella ar 26 Mai 2020 er mwyn casglu gwybodaeth am gleifion oedd â COVID-19 wedi'i gadarnhau yn yr ysbyty ond nad oedd yn dangos unrhyw symptomau am 14+ o ddiwrnodau, ond a arhosodd yn yr ysbyty ar lwybr triniaeth COVID-19, yn aml er mwyn adsefydlu. Bu rhai gwahaniaethau o ran adrodd gan fyrddau iechyd yn y gyfres amser sy'n cael eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hamlinellu'n fanylach yn yr adran **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg**.

Gweler **blog y Prif Ystadegydd** am ragor o wybodaeth am y ffordd o adrodd am gleifion sy’n gwella.

Gweler adran **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg** ar gyfer y set gyflawn o nodiadau a newidiadau hanesyddol yn ymwneud â ffigurau cyfnodau yn yr ysbyty.

## Prif bwyntiau

- Cynyddodd cyfanswm nifer y gwelyau a oedd yn cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 (achosion wedi’u cadarnhau, achosion a amheuir, a chleifion sy’n gwella) o ddiwedd mis Medi 2020 a chyrraedd ei lefel uchaf ar 12 Ionawr 2021 (2,879 o gleifion). O fis Ionawr 2021 i fis Mehefin 2021, gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn nifer y cleifion cysylltiedig â COVID-19 a chyrhaeddodd y lefelau isaf ar gofnod ar 30 Mehefin 2021 a 4 Gorffennaf 2021 gyda 86 o gleifion.
- Rhwng dechrau mis Gorffennaf 2021 a dechrau mis Tachwedd 2021 bu cynnydd cyffredinol yn nifer y gwelyau a oedd yn cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19, er cyfnodau o sefydlogi. Wedi hynny, bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y derbyniadau i’r ysbyty oherwydd COVID-19 tan ddiwedd mis Rhagfyr 2021.
- Rhwng diwedd mis Rhagfyr 2021 a chanol mis Ionawr 2022, bu cynnydd cyflym yn nifer y gwelyau â chleifion sy’n cysylltiedig â COVID-19;.
- Yn dilyn gostyngiad ddiwedd mis Mawrth 2022, mae nifer y cleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi cynyddu dros yr wythnos diweddaraf.
- Cyrhaeddodd nifer y cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 a nifer y cleifion sy’n gwella o COVID-19 uchafbwynt ar wahanol adegau; gyda'r niferoedd uchaf o gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 yn digwydd ddechrau mis Ionawr 2021 (1,643 ar 4 Ionawr 2021) a'r nifer uchaf o gleifion sy'n gwella i’w gweld rhai wythnosau yn ddiweddarach (1,192 ar 31 Ionawr 2021).
- Rydym yn ymwybodol o fater sy'n effeithio ar y data a dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer y cyfnod rhwng 16 Chwefror a 31 Mawrth. Credir bod y data'n tangyfrif gwir nifer y gwelyau mewn ysbytai a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddefnyddir gan gleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19. Byddai hyn yn golygu y bydd y cyfansymiau a gyflwynir yma ar gyfer Cymru yn is na'r gwir ffigurau dros y cyfnod hwnnw. Mae cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gweithio i ddatrys y mater ac ailgyflwyno data diwygiedig am y cyfnod llawn yr effeithir arno. Disgwylir y bydd data diwygiedig ar gael i'w cyhoeddi yn nhablau cyfatebol **StatsCymru ar weithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19)** yn ystod wythnos 18 Ebrill.


## Ar 12 Ebrill 2022

- Roedd 1,511 o welyau yn cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 (achosion wedi'u cadarnhau, achosion a amheuir, a chleifion sy'n gwella), sef 17.4% o'r holl gleifion ysbyty. O'r rhain, roedd 831 yn gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19, 29 yn gleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 a 651 yn gleifion sy'n gwella. Mae hyn yn gynnydd o'r ffigur o 1,373 ar 5 Ebrill 2022 (15.7% o'r holl gleifion ysbyty) ac mae'r lefelau yn debyg i'r hyn yr oeddent dechrau mis Mawrth 2021.
- Mae nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 (achosion wedi'u cadarnhau, achosion a amheuir, a chleifion sy'n gwella) yn amrywio. Bu cynnydd o 138 yn nifer y cleifion cysylltiedig â COVID-19 dros yr wythnos ddiwethaf. Roedd hyn oherwydd cynnydd yn nifer y cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 (71 yn fwy o welyau yn cael eu defnyddio), cleifion sy'n gwella (57 yn fwy o welyau yn cael eu defnyddio) a chleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19 (10 yn fwy o welyau yn cael eu defnyddio).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol

### Siart 3: Nifer y gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol yn ôl defnydd, o 1 Ebrill 2020




Ffynhonnell: Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
(a) Ers Mehefin 2020, mae ysbytai wedi dechrau cau rhywfaint o'r capasiti ychwanegol a oedd wedi'i sefydlu ar gyfer cynydd yn nifer y cleifion yn sgil pandemig COVID-19.
(b) Ers 19 Hydref 2020 mae gwelyau gofal critigol arbenigol wedi cael eu cynnwys.
(c) O 13 Tachwedd 2020 ymlaen, dim ond gwelyau gofal critigol y gellid eu staffio sy'n cael eu cynnwys fel gwelyau sydd ar gael.

### Gwelyau'r GIG yn ôl defnydd, bwrdd iechyd lleol, math o ysbyty a dyddiad (StatsCymru)

## Nodiadau

Ystyr mai'r rhif gwaelodol yw nifer y gwelyau oedd ar gael cyn y pandemig. Fel arfer mae 152 o welyau gofal critigol yng Nghymru. Mae nifer y gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol yn cynnwys capasiti ar gyfer ymchwydd dros dro, a gwelyau y tu mewn a'r tu allan i amgylchedd gofal critigol. Mae


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cleifion COVID-19 yn y siart hon yn cynnwys cleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19, cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19, a chleifion sy’n gwella. Rhwng 26 Mai 2020 ac 17 Ionawr 2021 cafodd rhai cleifion eu categoreiddio fel rhai ‘sy’n gwella’. O 18 Ionawr 2021, cafodd y cleifion hyn eu categoreiddio fel cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19. Ni chafodd y newid hwn effaith ar gyfanswm nifer y cleifion cysylltiedig â COVID-19.

Gweler adran **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg** ar gyfer y set gyflawn o nodiadau a newidiadau hanesyddol yn ymwneud â ffigurau gwelyau cymorth anadlu mewnwthiol.

## Prif bwyntiau

- Cynyddodd nifer y gwelyau sy’n cael eu defnyddio lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol yn gyffredinol o fis Medi 2020, gan gyrraedd 150 ar 12 Ionawr 2021. Ar ôl hynny, gostyngodd y niferoedd i’r lefel isaf a welwyd ers dechrau cofnodi. Am sawl diwrnod yn ystod mis Mai 2021 a mis Mehefin 2021, cofnodwyd mai dim ond 1 gwely yn unig lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol oedd yn cael ei ddefnyddio.
- Rhwng diwedd mis Mehefin 2021 a chanol mis Medi 2021, bu cynnydd yn nifer y gwelyau cymorth anadlu mewnwthiol a oedd yn cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 hyd at lefelau a oedd yn debyg i’r hyn yr oeddent ddiwedd mis Chwefror 2021. Er amrywiadau dyddiol, bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y gwelyau cymorth anadlu mewnwthiol oedd yn cael eu defnyddio rhwng dechrau mis Tachwedd 2021 a diwedd mis Rhagfyr 2021. Ar ôl cyfnod o sefydlogrwydd, mae’r lefelau wedi parhau i ostwng i lefelau a welwyd yng nghanol mis Gorffennaf 2021.

## Ar 5 Ebrill 2022

- Roedd 22 o welyau cymorth anadlu mewnwthiol yn cael eu defnyddio gan gleifion cysylltiedig â COVID-19 (achosion wedi'u cadarnhau ac achosion a amheuir). Roedd 17 o welyau yn cael eu defnyddio ar 5 Ebrill 2022.
- Roedd 153 o welyau cymorth anadlu mewnwthiol yn cael eu defnyddio gan gleifion nad oeddent yn gysylltiedig â COVID-19. Mae hyn yn cymharu â 174

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

o welyau ar 5 Ebrill 2022 (h.y. 21 yn llai o welyau'n cael eu defnyddio).
- Roedd 51 o welyau cymorth anadlu mewnwthiol gwag y gellid eu staffio. Mae hyn yn cymharu â 41 ar 5 Ebrill 2022 (h.y. 10 yn fwy o welyau yn cael eu defnyddio).

Mae gwybodaeth am ofal iechyd a gyflwynir ar **ddangosfwrdd COVID-19 Llywodraeth y DU** ac ar **ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn wahanol i'r cyhoeddiad hwn. Gweler yr adran **gwybodaeth am ansawdd a methodoleg** i gael rhagor o wybodaeth.

## Cleifion COVID-19 sy'n cael triniaeth yn weithredol ar gyfer COVID-19

### Prif bwyntiau

- Ers dechrau adrodd ar 17 Ionawr 2022, mae nifer y cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 a nifer y cleifion sy'n cael triniaeth am COVID-19 wedi gostwng yn gyffredinol tan dechrau y fis Mawrth 2022. Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, bu cynnydd yn nifer y cleifion â COVID-19 wedi'i gadarnhau; fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi sefydlogi'n gyffredinol dros yr wythnosau diwethaf. Mae canran y cleifion sy'n cael triniaeth ar gyfer COVID-19 mewn ysbytai acíwt wedi gostwng ers dechrau adrodd.
- Mae canran y cleifion sy'n cael eu trin am COVID-19 mewn gwelyau gofal critigol yn sylweddol uwch na'r ganran o gleifion sy'n cael eu trin am COVID-19 mewn gwelyau cyffredinol ac acíwt. Ers dechrau adrodd, mae canran y cleifion sy'n cael eu trin am COVID-19 mewn gwelyau gofal critigol wedi amrywio rhwng 46.2% a 100%, ac mae'r ganran wedi amrywio mewn gwelyau cyffredinol ac acíwt rhwng 11.4% a 44.9%.

### Ar 12 Ebrill 2022

- Roedd 671 o welyau mewn ysbytai acíwt yn cael eu defnyddio gan gleifion â COVID-19 wedi'i gadarnhau ac roedd 105 (15.6%) o'r cleifion hyn yn cael triniaeth weithredol ar gyfer COVID-19.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Roedd 22 o welyau gofal critigol mewn ysbytai acíwt yn cael eu defnyddio gan gleifion â COVID-19 wedi’i gadarnhau ac roedd 13 (59.1%) o’r cleifion hyn yn cael triniaeth weithredol ar gyfer COVID-19.

### Nodiadau

Casgliad data newydd ydy hwn. Gofynnwyd i fyrddau iechyd gategoreiddio cleifion mewnol â COVID-19 wedi’u cadarnhau yn ôl a ydynt yn cael triniaeth weithredol ar gyfer COVID-19 ai peidio. Mae’r cleifion sy ddim yn cael triniaeth weithredol ar gyfer COVID-19 ydy'r rhai lle mae'r haint yn atodol i'r prif reswm dros fod yn yr ysbyty.

Nid oes diffiniad safonol ar gyfer ‘yn cael triniaeth weithredol ar gyfer COVID-19’ ac mae rhai gwahaniaethau ar draws Byrddau Iechyd a lleoliadau yn y dulliau a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad. Mae gwaith yn parhau i ddeall ansawdd a chysondeb y data, ond ystyrir bod y ffigurau'n addas ar gyfer darparu amcangyfrif lefel uchel.

Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion mewn ysbytai acíwt yn unig. Nid yw cleifion ysbytai cymunedol, ysbytai maes ac unedau iechyd meddwl, a chleifion yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi'u cynnwys.

Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19. Nid yw achosion lle ceir amheuaeth o COVID-19 a chleifion sy'n gwella o COVID-19 wedi'u cynnwys.

## Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

Daw'r data o wybodaeth reoli ac mae’n bosibl y byddant yn newid. Ni fuont yn destun i’r un prosesau dilysu a gynhaliwyd ar gyfer datganiadau ystadegau swyddogol. Fodd bynnag, fe'u darperir i gefnogi tryloywder a dealltwriaeth o weithgaredd y GIG ar yr adeg hon. Dylai'r ystadegau swyddogol barhau i gael eu hystyried yn ffynhonnell ddata awdurdodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae’n bosibl y bydd data hanesyddol wedi'u diwygio ac na fyddant, felly, yn union yr un fath â'r hyn a gyhoeddwyd o’r blaen.

## Gweithgaredd a chapasiti ysbyty

Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd y dylai pob gweithgarwch nad oedd yn frys stopio er mwyn paratoi ar gyfer y pandemig.

Yn dilyn gwaith dilysu pellach, penderfynwyd nad oedd data derbyniadau a chyfnodau yn yr ysbyty cyn 1 Ebrill 2020 yn addas i’w cyhoeddi. Felly, mae’r gyfres amser yn dechrau ar 1 Ebrill 2020.

Mae ffigurau ar weithgarwch a chapasiti ysbytai a defnydd gwelyau yn cynnwys data o ysbytai acíwt o 1 Ebrill 2020 ymlaen, ysbytai maes o 20 Ebrill 2020 ymlaen, ysbytai cymunedol o 23 Ebrill 2020 ymlaen ac unedau iechyd meddwl o 10 Gorffennaf 2020 ymlaen, ac yn eithrio data o ysbytai preifat.

## Derbyniadau i ysbytai

Mae derbyniadau'n cyfeirio at nifer y cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty o fewn cyfnod o 24 awr rhwng hanner nos a hanner nos bob dydd, er enghraifft o 00:00 i 23:59 ddydd Llun gydag adroddiad ddydd Mawrth. Mae derbyniadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn cynnwys cleifion sydd â COVID-19 neu gleifion yr amheuir bod ganddynt COVID-19.

Diffinnir derbyniad sy'n gysylltiedig â COVID-19 fel derbyniad brys i unrhyw arbenigedd meddygol ac mae naill ai:

- o fewn 14 diwrnod i gymryd sampl COVID-19 positif; neu
- lle cymerir sampl COVID-19 ar ddiwrnod cyntaf y derbyniad, p'un a yw'r canlyniad yn bositif neu’n negatif

Bwriad y meini prawf ar gyfer derbyniadau meddygol brys yw rhoi brasamcan o nifer y cleifion lle bo amheuaeth o COVID-19.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ni ddylai cleifion a drosglwyddir rhwng ysbytai o fewn yr un sefydliad gael eu cyfrif yn nifer y derbyniadau.

Noder nad oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gallu darparu data ar nifer y cleifion a dderbyniwyd i Ysbyty Glan Clwyd yn ystod misoedd Gorffennaf 2021, Awst 2021 a Hydref 2021 oherwydd mater yn ymwneud â phrosesu data. I gael gwybod mwy am y dyddiadau penodol, darllenwch y nodyn ar **StatsCymru**.

O 3 Gorffennaf 2020, diweddarwyd y canllawiau i gynnwys derbyniadau brys yn unig yn y ffigurau derbyniadau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

O 29 Mehefin 2020 ymlaen, newidiodd y canllawiau hefyd i ofyn yn benodol i fyrddau iechyd eithrio trosglwyddiadau rhwng ysbytai acíwt ac ysbytai cymunedol o'r ffigurau derbyniadau. Cyn hyn, mae'n bosibl bod rhai trosglwyddiadau wedi cael eu cofnodi fel derbyniadau newydd.

O 29 Mehefin 2020, roedd cleifion a dderbyniwyd ar gyfer triniaethau dewisol ddim ond yn cael eu cynnwys mewn derbyniadau COVID-19 os oeddent yn derbyn canlyniad prawf positif am COVID-19 wrth gyrraedd yr ysbyty.

Ar ôl ailgyflwyno triniaethau dewisol o fis Mehefin 2020 ymlaen, cafodd cleifion a dderbyniwyd ar gyfer triniaethau dewisol ac yr amheuid bod ganddynt COVID-19 eu cofnodi i ddechrau ymhlith y derbyniadau COVID-19, hyd yn oed os oeddent yn cael prawf negatif yn nes ymlaen. Arweiniodd hyn at ymchwydd yn nifer yr achosion lle'r oedd amheuaeth o COVID-19 yn yr ysbyty ar yr adeg adrodd.

## Nifer y bobl yn yr ysbyty

Mae nifer y bobl sydd yn yr ysbyty am resymau'n gysylltiedig â COVID-19 yn golygu nifer y gwelyau wedi'u staffio a ddefnyddir gan glaf sy'n bodloni'r diffiniad o glaf sydd lle bo 'Cadarnhad' neu 'Amheuaeth' neu sy'n 'Gwella' fel y nodir isod.

Ni fydd claf yn cael ei ddiffinio fel claf y cadarnhawyd bod ganddo COVID-19 hyd nes y bydd wedi cael prawf positif; a bydd yn parhau i gael ei ddiffinio felly hyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

nes y bodlonir y meini prawf israddio. (Gweler yr adran ar wella o COVID-19 isod).

Diffinnir claf fel un yr amheuir bod ganddo COVID-19 os yw'n aros am ganlyniad prawf ar ôl cael ei dderbyn i’r ysbyty o dan arbenigedd meddygol neu os yw'n dod yn symptomatig ar ôl cael ei dderbyn am unrhyw reswm arall. Mae hyn hefyd yn cynnwys cleifion sy’n cael prawf negatif ond sy’n parhau i arddangos symptomau COVID-19, cleifion sy’n cael canlyniad positif lefel isel cyn cael ail brawf, a chleifion COVID-19 sydd wedi’u rhyddhau o’r ysbyty ond sy’n cael eu haildderbyn i’r ysbyty gyda symptomau COVID-19 cyn cael ail brawf.

Diffinnir claf fel un sy’n gwella o COVID-19 os yw naill ai'n cael canlyniad prawf negatif fel cadarnhad ei fod bellach yn glaf sy’n gwella o COVID-19, neu os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- wedi cwblhau 10 diwrnod ar ôl prawf COVID-19 positif
- wedi dangos gwelliant clinigol yn ei gyflwr, gydag o leiaf rywfaint o adferiad anadlol
- dim twymyn (> 37.8°C) am 48 awr
- dim imiwnoataliaeth gwaelodol difrifol

Mae claf nad yw’n gysylltiedig â COVID-19 yn glaf nad yw'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf a ddisgrifir uchod ar gyfer cadarnhad, amheuaeth neu sy’n gwella. Os yw claf wedi cael haint COVID-19 yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty ac wedyn yn bodloni'r meini prawf israddio a nodir uchod, dylid ei gofnodi fel claf nad yw’n gysylltiedig â COVID-19.

Rydym yn ymwybodol o fater sy'n effeithio ar y data a dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer y cyfnod rhwng 16 Chwefror a 31 Mawrth. Credir bod y data'n tangyfrif gwir nifer y gwelyau mewn ysbytai a ddefnyddir gan gleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19. Byddai hyn yn golygu y bydd y cyfansymiau a gyflwynir yma ar gyfer Cymru yn is na'r gwir ffigurau dros y cyfnod hwnnw. Mae cydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gweithio i ddatrys y mater ac ailgyflwyno data diwygiedig am y cyfnod llawn yr effeithir arno. Disgwylir y bydd data diwygiedig ar gael i'w cyhoeddi yn nhablau cyfatebol **StatsCymru ar weithgarwch a chapasiti’r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19)** yn ystod wythnos 18 Ebrill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

O 24 Mawrth 2022 ymlaen, mae’r byrddau iechyd wedi bod yn gweithredu’r canllawiau profi COVID-19 wedi’u diweddaru ar draws yr ystad ysbytai. Bydd pob claf yn parhau i gael ei brofi wrth gael ei dderbyn. Fodd bynnag, nid yw’n ofynnol mwyach i brofi cleifion sy’n parhau’n asymptomatig yn ystod eu harhosiad. Bydd hyn yn golygu na fydd nifer o achosion deilliadol / nosocomiaidd yn cael eu dal mwyach, a bydd hyn yn cael effaith ar y ffigurau a adroddir.

Roedd rhai byrddau iechyd wedi dosbarthu rhai cleifion yn anghywir fel rhai a oedd yn gwella o COVID-19 yn hytrach na chleifion heb COVID-19. Cleifion â COVID-19 wedi’i gadarnhau oedd y rhain, nad oeddent wedi cael triniaeth weithredol ar gyfer COVID-19 ac a oedd wedi cwblhau 10 diwrnod ar ôl prawf COVID-19 positif. Arweiniodd hyn at gynnydd mwy yn nifer y cleifion y dosbarthwyd eu bod yn gwella nag y dylai fod wedi bod. O 16 Chwefror 2022, ailadroddwyd canllawiau i ddatrys hyn, a arweiniodd at ostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy’n gwella o COVID-19 a chynnydd cyfatebol mewn cleifion heb COVID-19.

O 18 Ionawr 2022, er mwyn sicrhau adroddiadau cywir a chyson am gleifion sy’n gwella o COVID-19, ailgyhoeddwyd canllawiau ar gyfer adrodd trwy’r SITREP dros y byrddau iechyd. Gofynnwyd i fyrddau iechyd sicrhau bod y maen prawf israddio yn cael ei newid o fod angen ar y claf 14 diwrnod ar ôl prawf COVID-19 positif i fod angen 10 diwrnod.

Er mwyn sicrhau bod nifer y cleifion sy'n gwella o COVID-19 yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn gyson yn y data ar gyfnodau yn yr ysbyty, atgoffwyd pob bwrdd iechyd i ddilyn y canllawiau cenedlaethol ar gyfer adrodd ar SITREP, a gofynnwyd iddynt sicrhau bod unrhyw newidiadau angenrheidiol i'w hadroddiadau dyddiol wedi cael eu gweithredu erbyn 12 Ebrill 2021. Yn groes i'r canllawiau, roedd rhai byrddau iechyd yn cyfrif cleifion arhosiad hir a oedd wedi gwella'n llwyr o COVID-19 yng nghategori gwella o COVID-19, yn hytrach na'r categori cleifion nad ydynt yn gleifion COVID-19, a oedd wedi chwyddo nifer y cleifion sy'n gwella o COVID-19. Arweiniodd y newid hwn at ostyngiad sylweddol yn nifer y cleifion sy'n gwella (gostyngiad o tua 123 o gleifion ar y pwynt gweithredu). Er bod yr effaith wedi’i gweld ar draws y rhan fwyaf o fyrddau iechyd, gwelwyd yr effeithiau pennaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

O 8 Mawrth 2021, sicrhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod eu data yn fwy cydnaws â'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer adrodd ar y sefyllfa (SITREP). Cafodd y newid hwn effaith fach ar y ffigurau ar gyfnodau yn yr ysbyty, a arweiniodd at gynnydd bach yn nifer y cleifion gyda COVID-19 a gadarnhawyd a gostyngiad bach yn nifer y cleifion COVID-19 sy'n gwella.

O 1 Chwefror 2021, ailadroddwyd canllawiau i fyrddau iechyd y dylai cleifion a oedd eisoes yn yr ysbyty ac wedi dal COVID-19, ond sydd bellach wedi gwella ac sydd yn ôl yn eu lleoliad gwreiddiol, gael eu hadrodd fel rhai nad ydynt yn COVID-19. Gall hyn fod wedi effeithio ar nifer fach o gleifion oedd mewn ysbytai acíwt neu leoliadau iechyd meddwl a gallai fod wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cleifion sy'n gwella a chynnydd yn nifer y cleifion nad ydynt yn gleifion COVID-19.

O 16 Tachwedd 2020, cynhwysir data o ysbyty Athrofaol y Faenor ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o oddeutu 450 yng nghyfanswm nifer y gwelyau sydd ar gael.

Cafodd data o unedau iechyd meddwl eu cynnwys yn ôl-weithredol o 10 Gorffennaf 2020 am y tro cyntaf yn natganiad 20 Awst 2020. Roedd cynnwys gwelyau iechyd meddwl wedi cael effaith fach ar ffigurau a oedd yn dangos nifer y gwelyau llawn gyda chleifion COVID-19, ond effaith fawr ar yr holl welyau llawn gyda chleifion heb COVID-19 a gwelyau gwag, gan nad yw'r rhan fwyaf o welyau iechyd meddwl yn cynnwys cleifion COVID-19. Caiff data unedau iechyd meddwl eu cyflwyno bob dydd Gwener, a chaiff y sefyllfa ar y dydd Gwener ei defnyddio fel procsi ar gyfer yr wythnos ganlynol, oni bai bod yr amgylchiadau'n newid yn ddirfawr.

Cyflwynwyd y categori cleifion sy'n gwella ar 26 Mai 2020 er mwyn casglu gwybodaeth am gleifion oedd â COVID-19 wedi'i gadarnhau yn yr ysbyty ond nad oedd yn dangos unrhyw symptomau am 14+ o ddiwrnodau, ond a arhosodd yn yr ysbyty ar lwybr triniaeth COVID-19, a hynny'n aml er mwyn adsefydlu. Bu rhai gwahaniaethau o ran adrodd gan fyrddau iechyd yn y gyfres amser sy'n cael ei hamlinellu isod.

Gweler **blog y Prif Ystadegydd** am ragor o wybodaeth ar y adrodd cleifion sy'n gwella.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

O ran adrodd am gleifion sy’n gwella, dechreuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan adrodd am gleifion a oedd yn gwella o 7 Mehefin 2020 ymlaen, ond cofnodwyd y rhain yn y categori COVID-19 wedi'i gadarnhau cyn hynny. Roedd Caerdydd a'r Fro yn cyfrif cleifion a oedd yn gwella fel cleifion heb COVID-19 rhwng 1 Mai 2020 a 22 Mai 2020. Ar ôl newid y canllawiau, rhoddodd Caerdydd a'r Fro y cleifion hyn mewn categori arall fel cleifion COVID-19, gan eu cofnodi yn y categori COVID-19 wedi'i gadarnhau, tan i'r categori gwella gael ei gyflwyno ar 26 Mai 2020.

Ers Mehefin 2020, mae ysbytai wedi dechrau cau rhywfaint o’r capasiti ychwanegol a oedd wedi’i sefydlu ar gyfer cynnydd yn nifer y cleifion yn sgil pandemig COVID-19.

## Gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol

O 18 Ionawr 2021, ni chyfrifir unrhyw gleifion sy'n defnyddio gwely lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol (gwely gofal critigol) fel cleifion COVID-19 sy'n ‘gwella’ gan fod angen lefel uchel o ofal arnynt o hyd. Caiff unrhyw glaf y nodwyd ei fod yn ‘gwella’ ei gyfrif nawr o dan ‘wedi'u cadarnhau’. Arweiniodd y newid hwn at gynnydd yn nifer y cleifion COVID-19 ‘wedi’u cadarnhau’ a oedd yn defnyddio gwelyau lle darperir cymorth anadlu mewnwthiol (cynnydd o tua 14 o gleifion ar y pwynt gweithredu) ac nid oedd unrhyw welyau o’r fath yn cael eu dangos fel rhai oedd yn cael eu defnyddio gan gleifion sy’n ‘gwella’. Ni chafodd y newid hwn unrhyw effaith ar gyfanswm nifer y cleifion sy'n gysylltiedig â COVID-19.

O 13 Tachwedd 2020 ymlaen, dim ond gwelyau gofal critigol y gellid eu staffio a gafodd eu cynnwys fel gwelyau oedd ar gael. Mae gwelyau wedi’u staffio yn golygu’r rheini y gellir eu staffio adeg y cyfrifiad. Fodd bynnag, ni weithredodd pob bwrdd iechyd y newid hwn ar y dyddiad hwnnw. Yn dilyn diweddariad i'r canllawiau, gweithredodd mwy o fyrddau iechyd lleol y newid hwn o 4 Rhagfyr 2020 ymlaen.

O 19 Hydref 2020, mae data ar gyfer gwelyau gofal critigol arbenigol (fel y rhai Llosgi a Phlastig yn Nhreforys) a gwelyau acíwt arbenigol eraill (fel rhai mamolaeth) dros safleoedd acíwt eraill wedi eu cynnwys. Mae’r gwelyau hyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wedi cael eu cynnwys yn y data gan eu bod yn rhan o’r stoc o welyau sydd ar gael, a gellid eu defnyddio ar gyfer cleifion COVID-19 mewn amgylchiadau eithriadol. Nid oes cleifion COVID-19 yn y mwyafrif o’r gwelyau hyn. Nid yw cynnwys y rhain felly yn cael fawr o effaith ar nifer y gwelyau â chleifion COVID-19 ond mae’r effaith yn fwy ar nifer y gwelyau gweigion a’r rheini sydd â chleifion sydd ddim â COVID-19.

## Cymaroldeb

Gweler **dangosfwrdd Llywodraeth y DU** am wybodaeth am ofal iechyd ar lefel y DU. Sylwer: mae'r data gofal iechyd a gyflwynwyd yn dangosfwrdd y DU yn wahanol i'r cyhoeddiad hwn. Mae’r data ar gyfer Cymru ar ddangosfwrdd y DU yn cynnwys data ar gyfer ysbytai acíwt yn unig a ddarparwyd yn wreiddiol er mwyn gallu cymharu'n well â gwledydd eraill. Ond mae’r cyhoeddiad hwn yn cynnwys data o ysbytai acíwt, cymunedol a maes ac unedau iechyd meddwl er mwyn darparu darlun mwy cynhwysfawr o'r system yng Nghymru. O 11 Rhagfyr 2020 ymlaen, diweddarwyd data ar gyfer Lloegr a gyflwynwyd ar ddangosfwrdd y DU er mwyn cyd-fynd â chyhoeddiadau GIG Lloegr ac o ganlyniad diwygiwyd y gyfres amser gyfan ar gyfer yr eitem hon. Mae’r data ar gyfer Lloegr ar ddangosfwrdd y DU yn awr yn cynnwys data o ysbytai acíwt, cymunedol a maes ac unedau iechyd meddwl. Oherwydd y newid hwn i’r dull adrodd, rydym yn adolygu cyfaddasrwydd y data a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer Cymru. Cyhoeddir amcangyfrifon o nifer y bobl a gafodd y coronafeirws yng Nghymru a Lloegr hefyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn yr **Arolwg o Heintiadau Coronafeirws**.

Sylwch fod y data gwyliadwriaeth gofal iechyd a gyflwynir yn **nangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn wahanol i'r hyn sydd yn y cyhoeddiad hwn. Mae dangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio data a gesglir yn systematig drwy ICNET, y system data rheoli heintiau mewn ysbytai a ddefnyddir ledled Cymru. Mae'n cynnwys cleifion mewnol mewn ysbytai sydd wedi cael cadarnhad o’u prawf drwy labordy ac nid yw'n cyfrif unrhyw gleifion a gafodd eu derbyn a'u rhyddhau yr un diwrnod.

Mae cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn defnyddio data a geir o wybodaeth reoli

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddyddiol a ddarperir gan fyrddau iechyd. Darparwyd canllawiau i fyrddau iechyd lleol ar gwblhau a chyflwyno’r data. Gall dulliau casglu data amrywio o un bwrdd iechyd i’r llall. Mae'n cynnwys cleifion yr amheuir bod y clefyd arnynt, cleifion y cadarnhawyd ei fod arnynt a chleifion sy’n gwella ohono. Mae hefyd yn cynnwys cleifion nad yw COVID-19 arnynt.

Bydd y diffiniad culach a ddefnyddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn debygol o arwain at nifer lai o dderbyniadau sy'n gysylltiedig â COVID o gymharu â'r hyn a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, ond mae'n ddull systematig o gynnal gwyliadwriaeth ar gleifion y mae angen iddynt aros yn yr ysbyty os cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19.

## Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw’r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Ond cyn belled ag sy’n ymarferol, maent wedi’u casglu a’u dilysu yn unol â’r pileri a’r egwyddorion yn y **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**. Rydym yn parhau i ddatblygu’r data a gasglwyd a’r broses sicrwydd ansawdd i wella’r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau ar draws y byd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) sy’n rhaid eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Cafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu gosod gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

Yn unol ag egwyddorion y **cynllun pontio o bandemig i endemig**, byddwn yn cyhoeddi rhai o'n hadroddiadau ystadegol COVID-19 rheolaidd yn llai aml. O ganlyniad, 14 Ebrill 2022 fydd y diweddariad wythnosol olaf yn y gyfres hon. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ar 12 Mai 2022 a chaiff ei gyhoeddi'n fisol o hynny ymlaen. Bydd yr holl ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn yn parhau i gael eu cyhoeddi'n ddyddiol ac maent ar gael ar **StatsCymru**. Bydd setiau data **am absenoldeb staff y GIG (StatsCymru)** yn parhau i gael eu diweddaru'n wythnosol.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau neu adborth ar sut rydych yn defnyddio'r datganiadau hyn yn ogystal ag unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud iddynt drwy **kas.covid19@llyw.cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Os oes gennych ymholiad am y data, cysylltwch â:
Ystadegydd: Ryan Pike
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 116/2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Gweithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19): 14 Ebrill 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gweithgarwch-chapasitir-gig-yn-ystod-pandemig-y-coronafeirws-covid-19-14-ebrill-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.